

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) Crynodeb o'r Bil (Cyfnod 2)

Tachwedd 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6296**

E-bost: Osian.Bowyer@Senedd.Cymru

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Blog: SeneddYmchwil.blog

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Crynodeb o'r Bil (Cyfnod 2)

Tachwedd 2020

Awduron:
Osian Bowyer



Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil	3
Gwaith craffu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Bil	3
Gwaith craffu ar y Bil gan Bwyllgorau eraill y Senedd	3
3. Gwelliannau Cyfnod 2	5
4. Y camau nesaf	20

1. Cyflwyniad

Sefydlwyd y strwythur llywodraeth leol presennol yng Nghymru, sy'n cynnwys 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ("prif gynghorau") ym 1996 gan **Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994**. Mae'r ddadl ynghylch cynaliadwyedd y strwythur, ac effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol wedi parhau byth ers hynny. Mae Llywodraethau Cymru, y gorffennol a'r presennol, wedi comisiynu nifer o adroddiadau, comisiynau ac ymgynghoriadau papur gwyn, gyda'r nod o ddiwygio llywodraeth leol, cryfhau atebolrwydd democrataidd a chynyddu amrywiaeth y gynrychiolaeth.

Ar 18 Tachwedd 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** ("Y Bil") ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol.

Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AS, wrth gyflwyno'r Bil yn y **Cyfarfod Llawn ar 19 Tachwedd 2019**, fod Llywodraeth Cymru yn "newid y fframwaith llywodraethiant ar gyfer llywodraeth leol er mwyn hwyluso gwell arloesi, tryloywder a pherchnogaeth leol ar gyfer gwella canlyniadau darparu gwasanaethau a safonau ledled Cymru".

Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnig diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trefniadau etholiadol, democratiaeth, perfformiad a llywodraethiant ym maes llywodraeth leol. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** (fel y'i cyflwynwyd) yn datgan bod y Bil yn ceisio darparu "ffyrdd newydd i lywodraeth leol gefnogi a gwasanaethu eu cymunedau" a'i fod hefyd "yn ceisio adfywio democratiaeth leol yng Nghymru."

Ymhlith y darpariaethau mwyaf arwyddocaol yn y Bil mae'r rhai sy'n ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i **bobl ifanc 16 a 17 oed** a dinasyddion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithiol yng Nghymru. Hefyd ceir darpariaethau sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd y rhain yn **annog mwy o amrywiaeth** ym maes llywodraeth leol i adlewyrchu'n well y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu.

Bydd y Bil yn rhoi'r **Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol** i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys. Mae'r darpariaethau yn galluogi cynghorau cymwys i "weithredu er budd gorau eu cymunedau" heb fod angen pennu

pwerau penodol i ymgymryd â gweithgaredd penodol. Mae pŵer o'r fath wedi'i gymhwyso yn Lloegr ers 2012.

Yn ogystal, nod y Bil yw diwygio a chryfhau atebolrwydd, perfformiad a thryloywder llywodraeth leol er mwyn "darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch, o ansawdd uchel". Mae yna nifer o ddarpariaethau yn y Bil sy'n ceisio hwyluso **mwya o gydweithredu** rhwng prif gynghorau i sicrhau "meganweithiau gweithio rhanbarthol mwya cyson a chydlynol". Mae hyn yn cynnwys fframwaith i hwyluso **uno gwirfoddol**, neu ailstrwythuro prif gynghorau.

Gellir gweld manylion am bob un o'r 9 Rhan o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r gwahanol ddarpariaethau ynddynt yn y **Crynodeb o'r Bil** ar gyfer y gwaith craffu Cyfnod 1.

2. Gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil

2.1. Gwaith craffu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Bil

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyhoeddi adroddiad arnynt.

Cynhaliodd y Pwyllgor **15 sesiwn dystiolaeth gyda rhanddeiliaid**, a oedd yn cynnwys dwy sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AS. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd ymgynghoriad cyhoeddus ac arolwg gydag aelodau o'r cyhoedd ynghylch Rhan 3 o'r Bil sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer gwella mynediad at lywodraeth leol.

Cyhoeddwyd **Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil ar 13 Mawrth 2020**, ac mae'n gwneud 32 o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ystod eang o faterion mewn perthynas â'r Bil.

Argymhellodd y Pwyllgor fod **y Senedd yn cytuno** ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

2.2. Gwaith craffu ar y Bil gan Bwyllgorau eraill y Senedd

Mae **Pwyllgor Cyllid** a **Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y Senedd hefyd wedi craffu ar y Bil, a chynhaliodd y ddau sesiynau tystiolaeth gyda'r Gweinidog ar eu priod feysydd diddordeb.

Cyhoeddodd **y Pwyllgor Cyllid** a'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** eu hadroddiadau ar 13 Mawrth 2020. Mae'r ddau Bwyllgor yn pryderu bod y Bil yn cynnwys nifer o bwerau galluogi ar gyfer Gweinidogion Cymru a allai gael eu cyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn pryderu am y diffyg amcangyfrifon cost a wnaed ar gyfer pwerau o'r fath, gan nodi mewn adroddiad blaenorol gan y Pwyllgor ynghylch is-ddeddfwriaeth:

Dywedodd y Pwyllgor ar sawl achlysur y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys amcangyfrif gorau o'r costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol.

Nododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad fod yna bwerau creu rheoliadau yn y Bil ar gyfer meysydd polisi nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn eto. Nododd y canlynol:

Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol cymryd pwerau i gyflawni polisi na ddatblygwyd yn llawn ac na ragwelwyd eto. Rydym o'r farn bod hyn yn arfer deddfwriaethol gwael. Mae'r ymagwedd hon yn darparu gormod o bŵer i'r weithrediaeth ar draul y ddeddfwrfa.

Cytunwyd ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil yn y **Cyfarfod Llawn ar 8 Ebrill 2020.**

3. Gwelliannau Cyfnod 2

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 9 Ebrill 2020, gan ddod i ben ar 9 Hydref 2020. Cyfarfu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ystyried a gwaredu gwelliannau Cyfnod 2 ar **2 Hydref a 9 Hydref 2020**.

Cyflwynwyd cyfanswm o 294 o welliannau yng Nghyfnod 2, gyda chyfran sylweddol yn cael eu cyflwyno gan y Gweinidog sy'n Gyfrifol am y Bil, Julie James AS.

Roedd llawer o welliannau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r canlynol:

- Dileu'r holl ddarpariaethau sy'n ymwneud â *chronfa ddata o wybodaeth am y gofrestr etholiadol*
- *Dileu cyfeiriadau at gynlluniau peilot etholiad*
- *Diwygio diffiniad y Bil o "berson ifanc cymwys" yn adran 4. Mae hyn yn ymestyn y dyletswyddau ar brif gynghorau i wella ymwybyddiaeth ymhlith "pobl ifanc cymwys" a chofrestru fel etholwyr llywodraeth leol ar gyfer:*
 - *Y "pobl ifanc cymwys" hynny **nad ydynt yn preswyllo** yn ardal y prif gyngor; a*
 - **phobl sy'n gadael gofal** y mae gan y cyngor gyfrifoldebau drostynt o dan adran 109 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- *Cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud unrhyw reolau sy'n ymwneud â chynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.*
- *Dileu'r holl ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â chreu pŵer sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd ynghylch cynllun peilot etholiad, lle byddent yn gallu gorfodi awdurdod lleol i gynnal peilot etholiadol penodol.*
- *Dileu'r dyletswyddau a osodir ar brif gynghorau i annog pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gan awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cyngor; h.y. Awdurdodau Parciau Cenedlaethol neu Gynghorau Cymuned.*
- *Dileu rhwystrau a galluogi rhannu swyddi ar gyfer rolau anweithredol mewn prif gyngor, gan gynnwys cadeiryddion pwyllgorau ac is-bwyllgorau ac aelodau llywyddol ymhlith eraill.*
- *Roedd yna hefyd nifer o welliannau yn ymwneud â Chyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys adran newydd sy'n galluogi Cyd-bwyllgor Corfforedig i wneud unrhyw beth y mae'n credu a fydd yn hybu neu'n gwella lles economaidd ei ardal.*

- *At hynny, gwnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ymrwymiad penodol i gyflwyno gwelliannau yn nhrefodion Cyfnod 3 mewn perthynas â:*
 - *Presenoldeb o bell; a*
 - *Darlledu cyfarfodydd yn electronig.*

O ran gwelliannau posibl yng Nghyfnod 3, dywedodd y Gweinidog:

The Local Authorities (Coronavirus) (Meetings) (Wales) Regulations 2020 enable the wider local government family to continue to conduct business legally and safely, including meeting remotely. I receive many representations from all parts of the local government family for key parts of the emergency regulations to be preserved into the future. We are therefore preparing Government amendments for Stage 3, with a view to replacing section 54. We're all too aware of the recent actions that have had to be taken within areas where there has been an increase in COVID-19. The amendment I intend to bring forward will help futureproof local government meeting arrangements to deal with these circumstances, taking into account collective learning from recent months.

Cafodd y gwelliannau eu **grwpio gyda'i gilydd** er mwyn hwyluso'r ddadl. Roedd cyfanswm o 25 o grwpiau:

Roedd **gwelliannau Grŵp 1** yn gysylltiedig â **chymhwystra i bleidleisio mewn etholiadau Llywodraeth Leol**. Roedd gwelliannau Aelodau a gyflwynwyd gan Caroline Jones AS a Mark Isherwood AS yn y grŵp hwn yn amcanu i gael gwared ar y ddarpariaeth gyfredol sy'n ymestyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol i ddinasyddion tramor ac i bobl ifanc 16 a 17 oed.

Ni wnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ("y Gweinidog") gefnogi'r gwelliannau hynny, gan nodi:

the Welsh Government believes that anyone contributing to the social or economic life of Wales should have the right to vote in local elections on issues that affect their daily lives.

[...]The Welsh Government has made it very clear over the last four years that we believe the franchise for devolved elections should include those aged 16 and 17 years and those legally resident in Wales.

Cyflwynodd y Gweinidog welliant i alluogi pob person ifanc o Gymru mewn llety diogel yn y DU i gofrestru fel etholwyr llywodraeth leol drwy ddefnyddio datganiad o gysylltiad lleol. Wrth drafod y gwelliant, dywedodd y Gweinidog:

Enabling all young persons from Wales in secure accommodation to register using a declaration of local connection is an irrefutable statement that young persons in such accommodation are entitled to register to vote, and in the area they come from. And I urge the committee to support this amendment.

Cytunwyd ar welliannau'r Gweinidog. Ni gytunwyd ar gwelliannau'r Aelodau.

Roedd **gwelliannau grŵp 2** yn ymwneud â'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol. Cyflwynwyd 29 o welliannau. Roedd y prif welliant yn enw Delyth Jewell AS gan amcanu i ddarparu ar gyfer defnyddio'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel y system bleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

Dywedodd y Gweinidog:

The Welsh Government's policy as provided for in this Bill is to offer principal councils a choice between the two voting systems. Each council election is a separate event; voters will be focused on the election for their council, not on the council next door. I consider that introducing the local choice supports the principle of decisions being made at a more local level, and allows a council to reflect the different needs and demographics across parts of Wales. As such, I'm sorry that I cannot support any of the amendments tabled in this group from Delyth Jewell. Amendments 257 to 263 have the effect of mandating STV for all principal council elections, and remove the choice introduced by the provisions in the Bill.

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi gwelliannau'r Aelodau ar y systemau pleidleisio, a gwrthodwyd pob un. Cytunwyd ar welliannau 7, 8, 92 a 93 yn enw'r Gweinidog. Wrth drafod gwelliannau 92 a 93, dywedodd y Gweinidog:

*Amendments 92 and 93, which also relate to section 13 of the Bill, as currently drafted, rules in respect of the conduct of elections may apply with or without modifications to the parliamentary election rules. These amendments **expand this existing power** to modify so as to enable the rules to amend, modify, repeal or revoke any enactment. Similar powers were provided to the Secretary of State when the supplementary vote system was introduced for PCC elections.*

Roedd **grŵp 3** yn cynnwys gwelliannau amrywiol yn ymwneud â threfniadau etholiadol. Y prif welliant yn y grŵp oedd gwelliant 9, yn enw'r Gweinidog. Roedd y gwelliant yn amcanu i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori 'cyn gwneud unrhyw reolau sy'n ymwneud â chynnal etholiadau llywodraeth leol o dan adran 36A newydd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983'.

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi gwelliannau'r Aelodau yn y grŵp hwn, gan gynnwys gwelliant 225 yn enw Caroline Jones AS a oedd yn amcanu i hepgor

'cofrestru etholiadol a gweinyddiaeth etholiadol;' o deitl hir y Bil. Dywedodd y Gweinidog:

One of the main purposes of this Bill is to bring about reforms to local government elections in Wales and to implement necessary administrative reforms, for example the simplification of the disqualification regime around local government elections. I wholeheartedly do not support an amendment that would look to remove an entire suite of reforms the Welsh Government feel are highly desirable and necessary to make our electoral system fit for the twenty-first century.

Roedd **gwelliannau grŵp 4** yn ymwneud â chofrestru i bleidleisio mewn etholiadau Llywodraeth Leol. Gwelliant 11 yn enw'r Gweinidog oedd y prif welliant yn y grŵp, gan amcanu i ddileu adran 18 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer **cronfa ddata o wybodaeth am y gofrestr etholiadol** yn deillio o'r Bil. Meddai'r Gweinidog:

In the light of the evidence provided by stakeholders and the comments of committee during the Stage 1 consideration of the Bill, there are some points of detail that need to be further considered to ensure these provisions are appropriately robust. Due to the extensive work that has been created as a consequence of the pandemic, it has not been possible to appropriately address these matters ahead of Stage 2, so I've taken the decision to remove these provisions from the Bill.

Mae gwelliannau eraill yn dileu adrannau 19, 20 a 21 o'r Bil, sef darpariaethau sy'n ymwneud â sefydlu'r gronfa ddata.

Ni wnaeth y Gweinidog gefnogi gwelliannau'r Aelodau, gan gynnwys gwelliant 256 a 264 a oedd yn ceisio cyfyngu perchnogion eiddo a feddiannir o bryd i'w gilydd a pherchnogion mwy nag un cartref i gofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau llywodraeth leol ar gyfer unrhyw ardal lle nad yw eu hunig neu brif breswylfa.

Roedd **gwelliannau grŵp 5** yn ymwneud â chymhwystra i sefyll mewn etholiadau Llywodraeth Leol. Gwelliant 173 yn enw Mark Isherwood AS oedd y prif welliant yn y grŵp, gan nodi bod y gwelliant yn amcanu i 'ddileu'r ddarpariaeth gyfredol sy'n ymestyn yr hawl i sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol i bob dinesydd tramor, waeth beth yw eu dinasyddiaeth'. Roedd y gwelliannau eraill yn cynnwys darpariaethau sy'n sicrhau 'isafswm cyfnod preswyl' ar gyfer dinasyddion tramor (gwelliant 174) ac ehangu'r diffiniad o 'swydd â chyfyngiadau gwleidyddol' yng nghyd-destun sefyll mewn etholiad lleol (gwelliant 175).

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi gwelliannau'r Aelodau. Meddai:

the Welsh Government believes that the extension of the franchise to qualifying foreign citizens should extend to those eligible citizens being able to stand for office'. She also noted that there are 'no other UK residency requirements placed on any other category of candidate for local elections in Wales.

Nodai'r Gweinidog bod ei gwelliannau yn fân neu'n dechnegol eu natur, a chytunwyd arnynt. Ni gytunwyd ar holl welliannau'r Aelodau.

Roedd **gwelliannau grŵp 6** yn ymwneud â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u swyddogaethau. Y prif welliant yn y grŵp oedd gwelliant 94 yn enw'r Gweinidog. Meddai:

*the amendments I've tabled in this group refine and clarify the processes Part 5 puts in place to enable the establishment and amending of corporate joint committees or CJsCs. There **are no substantive changes** to the rationale and policy intent proposed.*

Mae tair adran o Ran 5 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cael eu disodli'n llwyr, tra bod nifer o newidiadau eraill wedi'u gwneud drwy'r Rhan hon o'r Bil er mwyn 'sicrhau bod y mireinio a wneir o natur gydgysylltiedig'. Roedd gwelliannau hefyd i greu swyddogaeth lles economaidd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Dywedodd y Gweinidog:

Amendment 112 provides a broadly equivalent or similar function to the well-being power under section 2 of the Local Government Act 2000 that principal councils are currently able to exercise but which will be repealed by the Bill in relation to principal councils and replaced by a general power of competence. It will enable a CJC that has been granted the function to do anything that it considers is likely to promote or improve the economic well-being of its area.

Mae rhai o'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn yn amcanu i sicrhau nad yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn 'cyffwrdd â nac yn diystyru swyddogaethau awdurdod parc cenedlaethol', a bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn 'aelodau o gyd-bwyllgor corfforedig at ddibenion arfer y swyddogaeth cynllunio strategol'.

Roedd gwelliannau'r Aelodau yn cynnwys dileu darpariaethau a allai fod yn ffordd dros ffurfio Cyd-bwyllgor Corfforedig, a darpariaeth i bobl leol a sefydliadau cymunedol 'fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau cyd-bwyllgorau corfforaethol'.

Derbyniwyd pob gwelliant yn enw'r Gweinidog. Ni chytunwyd ar welliannau'r Aelodau.

Roedd **gwelliannau grŵp 7** yn ymwneud â chynlluniau peilot etholiadau. Y prif welliant yn y grŵp hwn oedd gwelliant 17, yn enw'r Gweinidog.

Roedd gwelliant 17 yn dileu adran 26 – sef disgresiwn Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau peilot etholiadol yn deillio o'r Bil. Dywedodd y Gweinidog yn ystod Cyfnod 2, ar ôl cryn ystyriaeth:

[it is not considered] an appropriate time to pursue a programme of pilots. This is because of the considerable pressure upon electoral management teams implementing other electoral changes such as canvass reform, and also because, as a Government, we have not been able to make the preparations we would have done to implement these provisions because of the pandemic

Roedd gwelliant 18 yn dileu adran 27 - Canllawiau ynglŷn â chynlluniau treialu ar gyfer etholiadau, ac roedd gwelliant 2 yn dileu cyfeiriadau at y cynlluniau peilot yn y trosolwg. Cytunwyd ar yr holl welliannau.

Roedd **gwelliannau grŵp 8** yn ymwneud â swyddogion canlyniadau. Cynigiwyd dau welliant gan Aelodau.

Roedd gwelliant 236 yn enw Caroline Jones AS yn amcanu i ddileu adran 28 - Talu am wariant swyddogion canlyniadau o'r Bil. Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi'r gwelliant, ac meddai;

The purpose of these provisions is to clarify the law around the payment of personal fees to returning officers for the holding of local government elections. There is no legal basis upon which these payments are made, and these provisions clarify this and explicitly state that personal fees are not to be paid. It is not publicly acceptable that this practice still takes place, particularly in the times when ordinary council workers are subject to such restraint.

Roedd gwelliant 265 yn enw Delyth Jewell AS yn amcanu i sicrhau bod gofyn i swyddogion canlyniadau gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Dywedodd yr Aelod fod hyn yn deillio o bryderon a fynegwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg 'y gall y safonau gael eu gwanhau, ac rŷn ni felly wedi gosod gwelliannau i wneud yn siŵr dyw hynny ddim yn digwydd'.

Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'n llwyr yr egwyddor sy'n sail i'r gwelliant, ac mai 'ein bwriad yw mynd i'r afael â'r pryderon sy'n sail i hynny'. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

I would like to continue discussions with the returning officers and the electoral community as to how we can collectively ensure that the candidate and voter experience of devolved elections is the same in

Welsh as it is in English. Part of ensuring this may well be that returning officers are made subject to a number of Welsh language standards. Therefore, I support the principle of considering this issue in future legislation on electoral administration, but not its inclusion in this Bill, because I believe it is part of a wider piece of work that needs to be undertaken.

Gwrthodwyd y ddau welliant.

Roedd **gwelliannau grŵp 9** yn ymwneud â dogfennau ar etholiadau Llywodraeth Leol. Prif amcan y gwelliannau hyn oedd sicrhau **tryloywder a rheoliadau** ar gyfer hysbysebion gwleidyddol ar-lein 'y telir amdanynt'. Dywedodd Mark Isherwood AS mai diben ei welliant ef (gwelliant 176) oedd 'sicrhau bod rheolau ar-lein yn gyson â rheolau all-lein'. Mae'r Aelod yn nodi y bydd 'imprint digidol yn helpu rheoleiddwyr i nodi a monitro'n well pwy sy'n cynhyrchu deunydd etholiad a gorfodi'r rheolau gwariant.' Aeth yr Aelod ymlaen i ddweud:

We are advised that such imprints have recently become Westminster Government policy, and the Cabinet Office at UK level have circulated a document that summarises their policy proposals for review. We've also confirmed with Senedd lawyers that this amendment does fall within the scope of this Bill.

Nododd y Gweinidog ei bod yn cydymdeimlo â'r egwyddorion y tu ôl i welliant 176, ond ni allai gefnogi'r gwelliant, gan nodi mai'r 'ffordd fwyaf effeithlon o fynd i'r afael â hyn yw ar sail y DU gyfan'.

Gwrthodwyd y ddau welliant Aelod yn y grŵp hwn.

Roedd **gwelliannau grŵp 10** yn ymwneud â Phŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Y prif welliant yn y grŵp oedd gwelliant 266, yn enw Delyth Jewell AS. Nododd yr Aelod fod y gwelliant yn amcanu i'w gwneud yn 'glir ar wyneb y Bil yn benodol y gellir defnyddio pŵer cymhwysedd cyffredinol i hybu'r Gymraeg'.

Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol 'yn caniatáu i brif gynghorau a chynghorau cymunedol cymwys wneud unrhyw beth y gall unigolyn ei wneud'. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

As long as a council has taken the relevant legal matters into consideration, then exercising the general power for the purposes of promoting the Welsh language is a sound proposition and it is something a council would be able to do.

Fodd bynnag, ni chefnogodd y Gweinidog welliant yr Aelod, ac fe'i gwrthodwyd yn dilyn pleidlais.

Roedd **grŵp 11** yn ymwneud â chynghorau cymunedol cymwys. Y prif welliant oedd gwelliant 177, yn enw Mark Isherwood AS. Ynghyd â gwelliant 178 a 179, yn ôl yr Aelod:

[the amendments have been drafted to] reflect the concerns of the Auditor General for Wales during Stage 1 proceedings, when representatives of the Auditor General for Wales highlighted concerns regarding the use of the unqualified accounts criteria as part of the criteria for an eligible community council to exercise a general power of competence.

Esboniodd Mark Isherwood AS y byddai gwelliant 178 yn cynnig ateb i hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymunedol cymwys lunio strategaeth ar gyfer arfer y pŵer yn briodol.

Roedd y Gweinidog yn fodlon â'r amodau yn y Bil a oedd, ym marn y Gweinidog, yn darparu 'mesurau cymhwystra gwrthrychol a chymesur'. Gan hynny, nid oedd y Gweinidog yn cytuno â'r gwelliannau, ac fe'u gwrthodwyd yn ystod y bleidlais.

Roedd **grŵp 12** yn cynnwys cyfanswm o 40 o welliannau yn ymwneud â chyfranogiad y cyhoedd. Y prif welliant oedd gwelliant 180 yn enw Mark Isherwood AS. Dywedodd yr Aelod mai 'diben y gwelliannau yn y grŵp hwn yw ymgorffori egwyddorion cyd-gynhyrchu a datblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau' wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Aeth yr Aelod ymlaen i egluro, ymhlith y gwelliannau arfaethedig, roedd gosod dyletswyddau ar brif gynghorau i ystyried ffyrdd o 'hwyluso cydgynhyrchu gwasanaethau', dyletswydd i 'hyrwyddo'r defnydd o gyllidebu cyfranogol i gynnwys pobl leol' ac i 'ailenwi'r strategaeth cyfranogiad cyhoeddus yn 'strategaeth cynnwys y cyhoedd' i ymgorffori egwyddorion cydgynhyrchu yn y Bil'.

Ceisiodd yr Aelod hefyd ddiwygio darpariaethau ynghylch cynlluniau deisebau i'w gwneud yn ofynnol i brif gynghorau 'hyrwyddo eu cynllun deisebau yn rhagweithiol'.

Cytunodd y Gweinidog ag 'egwyddor' gwelliant 180, ac y dylai fod mor 'syml â phosibl i bobl gymryd rhan mewn democratiaeth leol', ond ni fyddai hi'n cefnogi'r gwelliannau. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog:

[my] officials are currently working with local government on developing the guidance necessary to support the implementation of this part of the Act, and I will ensure the **guidance includes the emphasis** the Member is trying to convey.

Roedd gwelliant 206 a gynigiwyd gan Mark Isherwood AS yn amcanu i gynnwys

'elfen o ymarferoldeb rhesymol i'r ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau **ddarlledu cyfarfodydd**'. Tynnodd yr Aelod sylw at bryderon a fynegwyd gan Gyfreithwyr ym maes Llywodraeth Leol ynghylch canlyniadau anfwriadol y ddarpariaeth, a'r risg o gyfyngu ar hygyrchedd i aelodau o'r cyhoedd. Soniodd y Gweinidog am y gwelliant hwn ac eraill, gan ddweud:

I understand the purpose behind these amendments and the difficult position principal councils feel they would face if the Bill is passed with this provision in it. During Stage 1 of the Bill, many concerns were raised about a default position in the Bill that meetings or any part of a meeting of a principal council that are open to the public must be broadcast. I've been clear that I want to find a practical solution, and while the current provision provides for Ministers to exclude specified meetings from a requirement to broadcast proceedings live, **I consider the provision could be improved**. That's why I am considering the options for bringing forward an **amendment to section 53 at Stage 3** of the Bill. My intention is that the amendment will look to provide a more **incremental and flexible approach** to the broadcast of meetings, and on this basis, I do not support these amendments at this point in time.

Ni chytunwyd ar unrhyw welliant gan Aelodau. Cytunwyd ar welliannau a gyflwynwyd gan y Gweinidog, gan gynnwys gwelliannau sy'n dileu dyletswyddau ar brif gynghorau i annog pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau trwy **'awdurdodau cysylltiedig'**.

Roedd **grŵp 13** yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, rhannu swyddi ac absenoldeb teuluol. Y prif welliant oedd gwelliant 272, yn enw Delyth Jewell AS. Roedd y gwelliant hwn yn gofyn cwestiynau yn sgil 'rhwystredigaeth ganfyddedig rhai cynghorwyr bod busnes y cyngor weithiau'n cael ei drefnu heb ystyried cyfrifoldebau eraill'. Tynnwyd y gwelliant hwn yn ôl yn dilyn y ddadl. Roedd gwelliannau 273 a 274 gan yr Aelod yn amcanu i wahardd ffurfio gweithrediaethau ac ynddynt ddynion yn unig mewn prif gynghorau.

Nododd y Gweinidog ei bod 'wedi ymrwymo i wella amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus, ac mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol'. Aeth y Gweinidog ymlaen i nodi:

I think these amendments are very well intentioned but don't sufficiently address the complexities of the issues. There is scope for unintended consequences. For example, a male member with disabilities may find himself excluded from serving on an executive despite the fact that his experience of living with disability could be invaluable.

Tynnwyd y prif welliant Aelod yn ôl. Cyflwynodd y Gweinidog nifer o welliannau yn y grŵp hwn. Roedd gwelliant 36 yn mewnosod adran newydd yn y Bil a fyddai'n:

[enable the Welsh Ministers to] make regulations about job sharing within certain non-executive offices within principal councils, namely a chair or vice-chair, a presiding or deputy presiding member, a chair, vice-chair or deputy chair of a committee or sub-committee, or a deputy mayor.

Roedd **grŵp 14** oll yn gywiriadau drafftio.

Roedd gwelliannau **grŵp 15** yn ymwneud â chyfarfodydd, trafodion a mynediad at wybodaeth. Y prif welliant oedd gwelliant 270 yn enw Delyth Jewell AS, ac roedd yn ymwneud â rhwystredigaeth gyda rhai arferion pleidleisio mewn prif gynghorau gyda phleidleisiau yn aml ddim yn cael eu 'cofnodi neu bleidleisiau'n cael eu caniatáu yn ôl mympwy, neu eu pasio drwy ddangos dwylo'.

Roedd gwelliannau pellach gan yr Aelod yn gofyn cwestiynau o ran gweithdrefnau ar gyfer cael gwybodaeth gan y cyngor a gwybodaeth a gaiff ei dal yn ôl gan swyddogion y cyngor rhag pwyllgorau craffu. Yn yr un modd, roedd gwelliant 280 yn amcanu i sicrhau cymorth craffu i aelodau meinciau cefn prif gynghorau sy'n debyg i'r Gwasanaeth Ymchwil yn y Senedd.

Roedd gwelliant 209 yn enw Mark Isherwood AS yn amcanu i 'roi dyletswydd ar brif gynghorau i lunio a chyhoeddi gweithdrefn i alluogi aelodau sy'n bresennol o bell i bleidleisio pe bai cyfleusterau sy'n galluogi presenoldeb o bell yn methu'.

Roedd y Gweinidog yn 'cydymdeimlo' â llawer o'r gwelliannau a gynigiwyd, ond nid oedd yn credu ei bod yn 'angenrheidiol na'n ddymunol' nodi gofynion mewn deddfwriaeth sylfaenol. Nododd hefyd fod darpariaeth ar gyfer cyngor a chymorth 'eisoes yn bodoli ar gyfer aelodau prif gynghorau' a gyflwynwyd gan **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**. Fodd bynnag, meddai'r Gweinidog:

I will consider bringing forward an **amendment at Stage 3** to provide for a **guidance power** relating to the functions of the head of democratic services. We could then work with local government and the WLGA to issue specific guidance following the Measure in this area.

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi gwelliant 209, gan nodi bod y gwelliant yn cynnwys prif gynghorau yn unig, ond bod 'Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn galluogi'r teulu llywodraeth leol ehangach i barhau i gynnal busnes yn gyfreithlon ac yn ddiogel, gan gynnwys cyfarfod o bell'.

Ni chytunwyd gwelliant 206, a thynnwyd holl welliannau eraill yr Aelodau yn ôl neu ni chawsant eu cynnig.

Roedd **grŵp 16** yn ymwneud â rheoli perfformiad Prif Weithredwyr. Y prif welliant yn y grŵp oedd gwelliant 96 yn enw'r Gweinidog, ac meddai fod y gwelliant yn dileu adran 60 o'r Bil:

This removes the duty on principal councils to make and publish arrangements for managing the performance of the chief executive of the council. This amendment should not be mistaken as abandoning the principle that underpins these provisions. I listened carefully to the evidence provided to and by this committee during Stage 1, especially the contributions and views expressed by stakeholders and the concerns members of the committee expressed about the level of prescription within the provision.

Codwyd pryderon yn ystod craffu Cyfnod 1 ynghylch y potensial i reoli perfformiad unigol gael ei 'wneud yn gyhoeddus', ac nid dyna oedd 'bwriad y ddarpariaeth'. Byddai perfformiad prif weithredwyr yn dal i gael ei gynnal fel rhan o'r broses adolygu panel a chymheiriaid a nodir yn adran 91 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi gwelliant 210, 211 na 212 a gyflwynwyd gan Mark Isherwood AS. Er bod y Gweinidog wedi nodi ei bod yn deall y 'bwriad y tu ôl i'r gwelliannau', roedd y rhain yn ymddangos 'gam ymhellach i'r maes a oedd yn peri pryder o'r blaen'.

Cytunwyd ar welliannau'r Gweinidog. Ni chytunwyd neu ni chynigiwyd gwelliannau'r Aelodau.

Roedd **grŵp 17** yn ddiwygiadau technegol yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y ddeddfwriaeth hon. Cyflwynwyd rhai gwelliannau gan y Gweinidog mewn ymateb i waith craffu Cyfnod 1 ar y Bil gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Gellir darllen **Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor DCC yma**.

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi gwelliant 244 a gyflwynwyd gan Caroline Jones AS, a oedd yn amcanu i ddileu Atodlen 1 i'r Bil, a dywedodd y Gweinidog y byddai'n 'atal elfennau allweddol o'r Bil rhag cael eu gweithredu'.

Cytunwyd ar holl welliannau'r Gweinidog, a gwrthodwyd yr un gwelliant Aelod.

Roedd gwelliannau **grŵp 18 a 19** yn faterion amrywiol yn ymwneud â'r Cydbwyllgorau Corfforedig a rheoliadau.

Roedd nifer o'r diwygiadau o natur dechnegol, a nododd y Gweinidog eu bod i fod i 'eglwro pa ddarpariaeth atodol y gellir ei gwneud at ddibenion rhoi effaith i reoliadau cyd-bwyllgorau, neu reoliadau sy'n eu diwygio/dirymu neu o ganlyniad iddynt'.

Wrth drafod gwelliannau 125, 128 a 136, dywedodd Mark Isherwood AS y byddai'n ymatal, gan nodi:

'we have concerns regarding how Ministers will use these powers and what, if any, role the Welsh Parliament will play in scrutinising any provisions made under these powers.'

Cytunwyd ar welliannau'r Gweinidog.

Roedd gwelliannau **grŵp 20** yn ymwneud â Rhan 6 - Perfformiad a Llywodraethiant prif gynghorau. Y prif welliant oedd gwelliant 288, yn enw Delyth Jewell AS, a gyflwynodd welliant 289 hefyd. Roedd y gwelliannau yn ceisio eglurder ynghylch targedau perfformiad awdurdodau lleol, a'r canlyniadau anfwriadol posibl i'r broses graffu, ynghyd â sicrhau bod swyddogion yn ymgysylltu â phob grŵp gwleidyddol yn y prif gyngor.

Dywedodd Mark Isherwood AS y byddai'n cefnogi'r holl welliannau yn y grŵp hwn, ac y byddai yntau'n cynnig gwelliant 215 a oedd yn ceisio cyflwyno darpariaeth newydd i 'ganiatáu gwahodd cynghorau tref a chymuned lleol i fod yn rhan o asesiadau perfformiad panel - mewn geiriau eraill, i allu cymryd rhan'.

Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cydymdeimlo ag egwyddor rhai o welliannau'r Aelodau, ond nad oedd Rhan 6 o'r Bil 'yn ymwneud â gosod targedau na dangosyddion'. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi 'ymrwymo i adolygu unrhyw fesurau perfformiad' ar gyfer prif gynghorau er mwyn 'cefnogi a hyrwyddo prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau da'.

O ran gwelliannau'r Gweinidog, roedd y mwyafrif yn dechnegol eu natur, ond roedd gwelliant 40 yn ymateb i **argymhelliad y Pwyllgor (arg.26) yn ei adroddiad Cyfnod 1**. Dywedodd y Gweinidog:

I'm happy to accept the committee's recommendation, but I don't think it's appropriate to specify a deadline for when the self-assessment report should be made. The amendment, therefore, specifies that the self-assessment report should be prepared as **soon as reasonably practical following the end of the financial year** to which the report relates.

Cytunwyd ar holl welliannau'r Gweinidog. Tynnwyd gwelliant Aelod 288 yn ôl, ac ni chynigiwyd gwelliant 289. Gwrthodwyd gwelliant 215.

Roedd **grŵp 21 a 22** yn welliannau mewn perthynas â Rhannau 7 - Uno ac ailstrwythuro prif ardaloedd; a Rhan 8 - Cyllid Llywodraeth Leol.

Roedd gwelliant Aelod 216, a gyflwynwyd gan Mark Isherwood AS, yn amcanu i:

remove the power for local authorities or Welsh Ministers to decide on what voting system is to be used in the first ordinary election of councillors to the principal council for a **new principal area**.

Roedd gwelliannau eraill yn amcanu i osod mandad ar gyfer y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel y broses etholiadol ar gyfer pob cyngor newydd a grëir drwy uno neu ailstrwythuro, a dileu'r adrannau o'r Bil sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru:

direct the Local Democracy and Boundary Commission for Wales to undertake a review of authorities that are the subject of a merger application, or where Ministers have given notice that they propose to make restructuring regulations. If a new authority is being created by a merger or restructuring, there would have to be new electoral wards for the new area and they should be the subject of an initial review by the boundary commission. If, on creating a new authority, by either voluntary merger or restructuring, Ministers are unable to direct the boundary commission to undertake the initial review, the only other option would be **for Ministers themselves to do the review**, and I'm sure the committee would agree that that's not the best solution to that problem.

Mae gwelliannau'r Gweinidog yn cydgrynhoi darpariaethau sy'n ymwneud â chanllawiau yn Rhan 7 a diwygiadau technegol.

Roedd y gwelliant mwyaf arwyddocaol ar gyfer Rhan 8 yn ymwneud ag atebolrwydd y sawl sy'n gadael gofal o ran talu'r Dreth Gyngor. Gwnaeth Llywodraeth Cymru is-ddeddfwriaeth yn 2019 i beidio â rhoi'r atebolrwydd hwn ar bobl sy'n gadael gofal. Fodd bynnag, os yw'r person sy'n atebol am dalu'r Dreth Gyngor yn methu â thalu, gellid ystyried bod y sawl sy'n gadael gofal yn 'atebol ar y cyd ac yn unigol'. Yn ôl y Gweinidog:

[Amendment 58] addresses this unacceptable anomaly by enabling the Welsh Ministers to specify in regulations that classes of persons disregarded for the purpose of council tax are also not to be held jointly or severally liable for that tax.

Cytunwyd ar welliannau'r Gweinidog. Cafodd gwelliannau eraill yr Aelodau naill ai eu gwrthod neu ni chawsant eu cynnig.

Roedd **grŵp 23** yn ymwneud ag awdurdodau tân ac achub cyfun: ymchwiliadau Y prif welliant a'r unig welliant yn y grŵp oedd gwelliant 217 yn enw Mark Isherwood AS.

Roedd y gwelliant yn amcanu i ddileu adran 162 o'r Bil. Roedd y gwelliant mewn ymateb i dystiolaeth tri Awdurdod Tân ac Achub Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i'r ddarpariaeth yn y Bil. Nododd yr Aelod, yn ystod tystiolaeth Cyfnod 1, fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi nodi ei 'bryderon dybryd' ynghylch y ddarpariaeth, a bod yr Awdurdod wedi nodi bod y 'newid yn gam peryglus gan y gallai arwain at newidiadau anaddas neu wael wrth i newidiadau gael eu gwneud i rai o'r meysydd allweddol a nodwyd uchod heb ymchwiliad, dadl, craffu na her ddigonol'.

Aeth yr Aelod ymlaen:

Thus, as this committee's Stage 1 report states, as supported by this committee's members, south Wales and mid and west Wales fire and rescue authorities were clear in requesting that the provision in section 162 be removed from the Bill. I will be moving this amendment accordingly.

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi'r gwelliant, gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal 'trafodaethau gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub am nifer o flynyddoedd ynghylch diwygio eu trefniadau llywodraethu a chyllid'. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

Removing this additional and unnecessary requirement will simplify an overcomplicated and expensive process. No other public body has the power to consent to changes in their own governance arrangements or to force an inquiry if they do not, and I'm afraid I'm not convinced that FRAs should be a special case.

Ni chytunwyd y gwelliant.

Roedd **grŵp 24** yn ymwneud ag iawndal i brif gynghorau. Gwelliant 218 yn enw Mark Isherwood AS yw'r prif welliant a'r unig welliant yn y grŵp. Nododd yr Aelod:

Amendment 218 seeks to establish a duty on the Welsh Government to compensate local authorities for any costs incurred as a result of provisions contained within the Bill. The regulatory impact assessment states the total cost of the Bill will be around £17.17 million, including transitional costs for local government of approximately £2.95 million. Given pressures on local government finances, and particularly in light of the COVID-19 crisis, the Welsh Government must ensure that it provides the resources necessary to enact the Bill and ensure that the Bill ultimately achieves its aims.

As such, our amendment reflects comments made by stakeholders during Stage 1 proceedings, including by the Welsh Local Government Association, who stated that 'the Welsh Government should fully fund any new national initiatives or the implications of any legislation on local authorities.'

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi'r gwelliant, ac meddai:

There is already an arrangement that is agreed, tried and tested with local government, which considers all three of these aspects of principal council funding in the round. This includes identifying and considering new burdens placed on principal councils, such as those that arise from legislation. The finance sub-group of the partnership council and its distribution sub-group ensure appropriate consideration is given to these matters. I therefore cannot support this amendment.

Ni chytunwyd y gwelliant.

Grŵp 25 oedd y grŵp olaf o welliannau ar gyfer Rhan 10 o'r Bil - Dod i rym. Roedd gwelliannau'r Gweinidog yn y grŵp hwn yn dechnegol eu natur.

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi gwelliannau'r Aelodau yn y grŵp hwn. Meddai:

Each of these amendments are consequential to amendments that the committee did not agree last week. If these amendments were agreed, they would remove the coming into force arrangements for provisions that do remain in the Bill.

Cytunwyd ar welliannau'r Gweinidog, ond ni chytunwyd gwelliannau'r Aelodau.

4. Y camau nesaf

Dechreuodd Cyfnod 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar 12 Hydref 2020. Yn ystod y Cyfnod hwn, gall Aelodau'r Senedd (gan gynnwys y Gweinidog) **gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2.**

Bydd y Senedd gyfan yn gwaredu'r gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 10 Tachwedd 2020. Yn dilyn Cyfnod 3, rhagwelir y bydd gofyn i'r Senedd bleidleisio a ddylid pasio'r Bil yng Nghyfnod 4. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer Cyfnod 4. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch **proses ddeddfu'r Senedd ar ei gwefan.**